**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – Datblygu Trafnidiaeth Cymru yn y Dyfodol**

---

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw creu system integredig o'r radd flaenaf i ddarparu trafnidiaeth carbon isel yng Nghymru – un y gall hybu ein heconomi a'n cymunedau i fod yn fwy ffyniannus. Sefydlwyd Trafnidiaeth Cymru i'n helpu i wireddu'r weledigaeth hon. Mae'r cwmni yn chwarae rôl bwysig o ran integreiddio'r rhwydwaith trafnidiaeth cyfan drwy sicrhau bod teithwyr yn ganolog i bopeth y mae'n ei wneud.

Ein dyhead ar gyfer Trafnidiaeth Cymru yw gwneud y defnydd gorau ohono fel cwmni sy'n integreiddio trafnidiaeth a chaniatáu i'r Cwmni ymgymryd ag amrywiaeth ehangach o swyddogaethau trafnidiaeth. Roedd cyfnod ariannol 2018/19 yn gyfnod pwysig yn nhwf Trafnidiaeth Cymru wrth iddo ddatblygu momentwm o ran newid y ffordd yr ydym yn cyflenwi gwasanaethau trafnidiaeth a seilwaith ledled Cymru. Bydd cylch gwaith Trafnidiaeth Cymru o hyn ymlaen yn sicrhau bod y Cwmni yn parhau i gyflenwi un o elfennau craidd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol wedi'u pennu yng nghyd-destun Symud Cymru Ymlaen 2016-2021, Ffyniant i Bawb; y strategaeth genedlaethol, y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar ben hynny, mae Prif Weinidog Cymru wedi ymrwymo i rymuso Trafnidiaeth Cymru i gyflenwi system trafnidiaeth gyhoeddus sy'n rhoi mynediad haws i bawb i fysiau, trenau a theithio llesol ar gyfer siwrneiau pob dydd.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am ei adroddiad. Rwy'n arbennig o falch bod argymhellion y Pwyllgor yn cyd-fynd ar y cyfan â'n cynlluniau presennol a'r rhai sydd gennym ar gyfer y dyfodol. Fe welwch isod fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad. Mae sawl argymhelliad y Pwyllgor yn ymdrin â materion gweithrediadol ar gyfer Trafnidiaeth Cymru. Fel is-gwmni o dan berchnogaeth lawn Gweinidogion Cymru, mae gan Trafnidiaeth Cymru hunaniaeth gyfreithiol glir o fewn fframwaith cadarn sefydledig. Mae gwahaniaeth clir rhwng Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru, sy'n caniatáu i Trafnidiaeth Cymru wneud penderfyniadau gweithrediadol yn annibynnol. Rwyf wedi gofyn, felly, i Trafnidiaeth Cymru ystyried sut y bydd yn gweithredu rhai o'r argymhellion ac iddo ymateb i'r Pwyllgor yn uniongyrchol, fel y nodir isod yn fy ymateb manwl.

**<u>Argymhelliad 1</u>**

Rhaid i Trafnidiaeth Cymru symud yn gyflym i sefydlu grŵp cynghori ffurfiol i'w alluogi i ymgysylltu â chyrff rhanddeiliaid a gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfrifoldebau a swyddogaethau Trafnidiaeth Cymru, a'r llinellau atebolrwydd ar gyfer yr holl swyddogaethau trafnidiaeth amrywiol yng Nghymru.

**Ymateb: Derbyn**

Gofynnwyd i Trafnidiaeth Cymru ystyried sut y bydd yn gweithredu'r argymhellion ac iddo ymateb i'r Pwyllgor yn uniongyrchol.

**Goblygiadau ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rhaglenni.

**<u>Argymhelliad 2</u>**

Rhaid i Trafnidiaeth Cymru ddangos ymrwymiad cryfach i ddiwallu anghenion cwsmeriaid a gwella profiad teithwyr: rhaid iddo ddefnyddio ystod eang o fecanweithiau, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, i ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a theithwyr. Dylai Trafnidiaeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cynhwysfawr sy’n nodi ei ymagwedd ac yn nodi’n glir pa safonau y gall rhanddeiliaid a’r cyhoedd eu disgwyl. Dylai’r cynllun ddangos yn glir sut y bydd Trafnidiaeth Cymru yn ystyried barn grwpiau defnyddwyr a rhanddeiliaid allweddol.

**Ymateb: Derbyn**

Gofynnwyd i Trafnidiaeth Cymru ystyried sut y bydd yn gweithredu'r argymhellion ac i ymateb i'r Pwyllgor yn uniongyrchol.

Rhan o gylch gwaith Trafnidiaeth Cymru yw mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Rhaid i Gynllun Corfforaethol Trafnidiaeth Cymru egluro'n glir sut y bydd Trafnidiaeth Cymru yn datblygu ei frand fel brand sy'n rhoi cwsmeriaid yn gyntaf ac un y mae teithwyr a rhanddeiliaid ledled Cymru yn ei adnabod ac yn deall ei werthoedd. Ar ben hynny, rhaid i'r Cynllun Corfforaethol ddarparu gwybodaeth am sut y bydd gweithgarwch marchnata a chyfathrebu yn hyrwyddo gwerthoedd brand Trafnidiaeth Cymru ac yn helpu i gyflenwi Cynlluniau Gweithrediadol y Cwmni.

**Goblygiadau ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rhaglenni.

**<u>Argymhelliad 3</u>**

Rhaid i Trafnidiaeth Cymru gyhoeddi siart sefydliad ar gyfer y sefydliad cyfan – nid y bwrdd yn unig – gyda manylion am swyddogaethau a rolau yn y sefydliad, a dylai’r wybodaeth hon gael ei diweddaru yn rheolaidd (bob mis i ddechrau) wrth i’r sefydliad dyfu. Dylai ddangos a yw staff yn cael eu cyflogi’n uniongyrchol neu fel ymgynghorwyr, a rhoi digon o fanylion am natur y gwaith arbenigol y mae’n ei wneud.

**Ymateb: Derbyn**

Gofynnwyd i Trafnidiaeth Cymru ystyried sut y bydd yn gweithredu'r argymhellion ac iddo ymateb i'r Pwyllgor yn uniongyrchol. Nodwyd hefyd yn ei lythyr cylch gwaith fod yn rhaid iddo gyflawni mwy a mwy o'i swyddogaethau yn fewnol i fanteisio ar y cyfle sydd gan y Cwmni i ddatblygu a chynnal sylfaen sgiliau proffesiynol yn y maes trafnidiaeth a fydd yn hybu'r economi a sicrhau mwy o swyddi yng Nghymru.

**Goblygiadau ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rhaglenni.

**Argymhelliad 4**

Tra'n cydnabod bod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wedi ymrwymo i gynnal gwrandawiad cyn penodi ar gyfer Cadeiryddion Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru ffurfioli'r trefniant hwn gyda'r Pwyllgor.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Scott Waddington wedi'i benodi'n Gadeirydd Bwrdd Cwmni Trafnidiaeth Cymru tan fis Ionawr 2022. Bydd trefniadau ffurfiol yn cael eu gwneud gyda'r Pwyllgor ar wrandawiad cyn penodi ar gyfer pob apwyntiad yn y dyfodol.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 5**

Mae'n anodd argymell ar ba ffurf y dylai'r corff trafnidiaeth fod hyd nes bod eglurder ynghylch ei swyddogaethau, ac mae wedi datblygu i'r pwynt lle mae'n barod i gyflawni'r swyddogaethau ychwanegol hynny. Mae angen i Lywodraeth Cymru benderfynu beth y mae am i Trafnidiaeth Cymru ei gyflawni cyn cytuno ar fodel llywodraethu penodol. Wrth wneud hynny, rhaid iddo ddiffinio cylch gorchwyl Trafnidiaeth Cymru yn glir, a datrys y tensiynau a grëir yn sgil bod â rolau o ran datblygu a chyflwyno polisi.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r cyd-destun deddfwriaethol a'r setliad datganoli y mae'n rhaid inni weithio oddi mewn iddynt yn golygu bod cwmpas cylch gwaith Trafnidiaeth Cymru wedi'i gyfyngu i'r gweithgareddau y caiff Gweinidogion Cymru eu cyflawni'n gyfreithlon. Nid yw'n bosibl, felly, i Weinidogion Cymru ofyn i Trafnidiaeth Cymru wneud unrhyw beth y tu allan i bwerau Gweinidogion Cymru.

Sefydlwyd Trafnidiaeth Cymru dan y Ddeddf Cwmnïau (2006) ac mae'n gwbl atebol i Weinidogion Cymru fel is-gwmni cyfyngedig drwy warant dan berchnogaeth lawn y Gweinidogion hynny. Mae'r Cwmni yn gweithredu yn unol ag Adran 71 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n nodi y gall Gweinidogion Cymru ffurfio cwmni (fel cwmni hyd braich) er mwyn darparu gwasanaethau iddynt, pan benderfynir y bydd hynny'n hwyluso'r broses o arfer unrhyw swyddogaethau, boed yn gydnaws â hynny neu'n digwydd o achos hynny. Caiff Trafnidiaeth Cymru ei ddwyn i gyfrif gan Lywodraeth Cymru drwy gyfres o ddulliau strategol gan gynnwys y Llythyrau Cylch Gwaith sy'n diffinio'n glir yr hyn y mae Trafnidiaeth Cymru yn gyfrifol am ei gyflenwi ar ein rhan.

Mae cyfansoddiad Trafnidiaeth Cymru fel is-gwmni dan berchnogaeth lawn, felly, yn sicrhau bod gwahaniaeth rhwng cyfrifoldeb dydd i ddydd Trafnidiaeth Cymru i gyflenwi ei weithgarwch sy'n rhan o'i gylch gwaith i weithredu a rheoli gwasanaethau trafnidiaeth a seilwaith, a'r cyfrifoldeb a ysgwyddir gan Weinidogion Cymru am bob mater sy'n ymwneud â thrafnidiaeth.

Fodd bynnag, rwy'n cydnabod y bydd angen i drefniadau llywodraethu Trafnidiaeth Cymru ddatblygu er mwyn iddo wireddu ein huchelgais i gyflawni amrywiaeth ehangach o swyddogaethau trafnidiaeth. Mae swyddogion ar hyn o bryd yn edrych

ar yr opsiynau cyflenwi a fydd yn gwireddu ein huchelgeisiau drwy achos busnes ac mae'r gwaith hwn yn mynd yn ei flaen. Rwy'n falch bod y Pwyllgor wedi cydnabod bod sawl model cyflenwi gwahanol yn cael eu gweithredu ar draws y DU a'i bod yn bwysig nodi model addas i Gymru a fydd yn sicrhau bod y llinellau atebolrwydd yn glir. Rwy'n cytuno bod angen penderfynu gyntaf am beth y bydd Trafnidiaeth Cymru yn gyfrifol amdano a bydd yr achos busnes yn nodi'r modelau cyflenwi a llywodraethu posibl. Rwy'n ymrwymedig i gyhoeddi canlyniad yr achos busnes a chylch gwaith Trafnidiaeth Cymru ar gyfer y dyfodol pan fydd wedi'i gwblhau.

**Goblygiadau ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**<u>Argymhelliad 6</u>**

Dylai Llywodraeth Cymru bellach symud yn gyflym i ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu'r Papur Gwyn nesaf ar y ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i sefydlu Awdurdodau Trafnidiaeth ar y Cyd y mae'n rhaid iddynt roi eglurder ynghylch sut y maent yn cyd-fynd â strwythur llywodraethu trafnidiaeth cyffredinol Cymru, a lle mae'n meddwl y dylai rolau a chyfrifoldebau yn y dyfodol fod. Felly, rhaid cyhoeddi achos busnes Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol Trafnidiaeth Cymru cyn y Papur Gwyn nesaf neu ochr yn ochr ag ef, a gwneud y berthynas ag Awdurdodau Trafnidiaeth ar y Cyd yn glir, fel bod strwythur cyffredinol llywodraethu trafnidiaeth yng Nghymru yn glir.

**Ymateb:**

Cyhoeddwyd y Papur Gwyn Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus ar gyfer ymgynghori rhwng 10 Rhagfyr 2018 a 27 Mawrth 2019 gan nodi cynigion cychwynnol ar gyfer ffurfio Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth trwy is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a rhanddeiliaid eraill ar gynigion Cyd-Awdurdodau Trafnidiaeth gyda'r bwriad o gyhoeddi ymgynghoriad ffurfiol yn yr Hydref eleni. Byddaf yn cyhoeddi canlyniadau'r achos busnes a chylch gwaith y dyfodol Trafnidiaeth Cymru yn ystod yr ymgynghoriad ar y cynigion Cyd-Awdurdodau Trafnidiaeth.

**Goblygiadau ariannol –** Dim mewn perthynas â cylch gwaith Trafnidiaeth Cymru. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**<u>Argymhelliad 7</u>**

Fel rhan o'i adroddiadau cyhoeddus rheolaidd ar ei weithgareddau, dylai Trafnidiaeth Cymru ddarparu tystiolaeth glir o sut y mae'n cydymffurfio ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Trafnidiaeth Cymru bennu amcanion llesiant y Cwmni er mwyn sicrhau ei fod yn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gymaint â phosibl. Gofynnwyd i Trafnidiaeth Cymru gyhoeddi Cynllun Corfforaethol 5 mlynedd ddiwedd 2019 sy'n manylu'r amcanion llesiant cysylltiedig. Rhaid i'r cynllun nodi sut y bydd

Trafnidiaeth Cymru yn defnyddio'r polisi a'r fframwaith deddfwriaethol hyn ac wrth wneud hynny, ddarparu gweledigaeth gadarn a grymusol ar gyfer ei staff a rhanddeiliaid sy'n hyrwyddo gwerthoedd brand Trafnidiaeth Cymru a'r ffordd y mae teithwyr yn ganolog i bopeth y mae'n ei wneud. Gofynnwyd i Trafnidiaeth Cymru ystyried sut y bydd yn gweithredu'r argymhellion ac iddo ymateb i'r Pwyllgor yn uniongyrchol.

**Goblygiadau ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rhaglenni.

**Argymhelliad 8**

Dylai Trafnidiaeth Cymru a/neu Lywodraeth Cymru roi mwy o fanylion i'r Pwyllgor am y cynlluniau a'r amserlen ar gyfer datblygu tocynnau integredig a theithio clyfar i Gymru.

**Ymateb: Derbyn**

I helpu i greu rhwydwaith trafnidiaeth gwirioneddol integredig, rhan o gylch gwaith Trafnidiaeth Cymru yw datblygu tocyn y gall sawl gweithredwr ei ddefnyddio a gofyn am atebion i ddarparu trafnidiaeth sy'n seiliedig ar alw. Gofynnwyd iddo, felly, ystyried sut y bydd yn cyflawni'r argymhelliad hwn ac iddo ymateb yn uniongyrchol i'r Pwyllgor.

**Goblygiadau ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rhaglenni.

**Argymhelliad 9**

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod strwythur Bwrdd Trafnidiaeth Cymru yn cael ei gryfhau'n sylweddol a'i fod yn cymharu'n ffafriol â chyfansoddiad a setiau sgiliau cyrff gweithredol trafnidiaeth eraill. Dylai'r gynrychiolaeth ar Fwrdd Trafnidiaeth Cymru, a'r ffordd y mae'n gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau, gael ei dylunio i ymgorffori dull partneriaeth gymdeithasol cryf ac agored, ac ymrwymiad i amrywiaeth o fewn y sefydliad. Dylai Trafnidiaeth Cymru hefyd gyhoeddi cofrestr gyflawn o fuddiannau holl aelodau'r Bwrdd a'i gyfarwyddwyr ar ei wefan.

**Ymateb: Derbyn**

Gofynnwyd i Trafnidiaeth Cymru ystyried sut y bydd yn gweithredu'r argymhellion ac iddo ymateb i'r Pwyllgor yn uniongyrchol.

**Goblygiadau ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rhaglenni.

**Argymhelliad 10**

Dylid cyhoeddi canlyniadau dienw gweithgareddau Trafnidiaeth Cymru i asesu boddhad staff ar ei wefan.

**Ymateb: Derbyn**

Gofynnwyd i Trafnidiaeth Cymru ystyried sut y bydd yn gweithredu'r argymhellion ac iddo ymateb i'r Pwyllgor yn uniongyrchol.

**Goblygiadau ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rhaglenni.

**<u>Argymhelliad 11</u>**

Dylai Trafnidiaeth Cymru ymrwymo i gytundeb partneriaeth gymdeithasol â'r holl undebau perthnasol cyn gynted â phosibl i ddangos ei ymrwymiad i arfer gorau.

**Ymateb: Derbyn**

Gofynnwyd i Trafnidiaeth Cymru ystyried sut y bydd yn gweithredu'r argymhellion ac iddo ymateb i'r Pwyllgor yn uniongyrchol.

**Goblygiadau ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rhaglenni.

**<u>Argymhelliad 12</u>**

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Trafnidiaeth Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod ei gynllun adnoddau dynol yn canolbwyntio'n strategol ar ddatblygu sgiliau a mabwysiadu rhaglen brentisiaeth fel rhan o'i swyddogaethau yn y dyfodol.

**Ymateb: Derbyn**

Drwy fuddsoddi yn natblygiad ei staff presennol a recriwtiaid newydd, yn ogystal â chynnig gyrfaoedd a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau, mae Trafnidiaeth Cymru mewn sefyllfa unigryw i ddatblygu a chynnal sylfaen sgiliau proffesiynol ym maes trafnidiaeth a fydd yn hybu'r economi a sicrhau mwy o swyddi yng Nghymru. Gofynnwyd i Trafnidiaeth Cymru ystyried sut y bydd yn gweithredu'r argymhellion ac iddo ymateb i'r Pwyllgor yn uniongyrchol.

**Goblygiadau ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rhaglenni.

**<u>Argymhelliad 13</u>**

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod polisi ac arferion caffael Trafnidiaeth Cymru yn cyd-fynd yn llwyr â chefnogi etifeddiaeth o sgiliau a hyfforddiant wrth gyflawni ei swyddogaethau.

**Ymateb: Derbyn**

Rhan o gylch gwaith Trafnidiaeth Cymru yw ymgorffori fframwaith y Contract Economaidd fel modd o sicrhau buddsoddiadau cyhoeddus at ddiben cymdeithasol a bod y Cwmni yn cydymffurfio ag egwyddorion y fframwaith o ran twf cynhwysol, gwaith teg, iechyd a sgiliau yn y gweithle a rheoli ôl-troed carbon. Dylai hyn gynnwys sut y byddai trefniadau caffael a chontractau yn cael eu diwygio i alluogi Trafnidiaeth Cymru i wneud hyn. Gofynnwyd i Trafnidiaeth Cymru ystyried sut y bydd yn gweithredu'r argymhellion ac iddo ymateb i'r Pwyllgor yn uniongyrchol.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rhaglenni.

**Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**